

Crynodeb Cludiant Am Ddim i'r Ysgol

Ysgol Uwchradd

Os bydd eich plentyn yn mynd i'r Ysgol Uwchradd yn y dyfodol agos, fel rhan o'ch penderfyniad ynghylch yr ysgol rydych yn ffafrio, efallai yr hoffech chi ystyried pa Ysgol Uwchradd y bydd hawl gan eich plentyn i gael cludiant am ddim iddi cyn cadarnhau hyn gydag Adran Derbyniadau Ysgolion Cyngor Wrecsam. Dim ond os yw eich cyfeiriad cartref fwy na 3 milltir oddi wrth yr Ysgol Uwchradd addas agosaf y bydd cludiant am ddim yn cael ei roi. Mae cymhwysedd ar gyfer cludiant Ysgolion Uwchradd am ddim yn cael ei bennu trwy fesur pellter o gyfeiriad y cartref i'r Ysgol Uwchradd addas agosaf yn unig. Asesir y mesuriad gan ddefnyddio 'llwybr cerdded' ar system feddalwedd Education ONE y Cyngor. Mae'r system yn defnyddio technoleg GPS ac wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff y system fapio hon ei diweddarau bob 12 mis, felly gallai canlyniadau'r asesiad fod yn wahanol o un flwyddyn i'r llall pan fod ffyrdd, llwybrau a manau mynediad diogel yn cael eu cynnwys.

Sylwer nad oes unrhyw drefniadau ysgol fwydo at ddibenion cludiant ysgol. Nid yw presenoldeb blaenorol mewn Ysgol lau benodol yn awgrymu bod unrhyw hawl i gludiant i Ysgol Uwchradd benodol, er gwaethaf unrhyw drefniadau traddodiadol a allai fod wedi bod yn eu lle yn y gorffennol nac hyd yn oed lle mae brodyr a chworydd wedi mynychu o'r blaen.

Bydd rhai achosion, er enghraifft lle mae'r pellter o gyfeiriadau cartref rhwng dwy Ysgol Uwchradd yn dynn iawn, a bydd rhai myfyrwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim i un ysgol a bydd myfyrwyr eraill a fynychodd yr un Ysgol lau neu hyd yn oed yn byw ar yr un stryd yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol arall neu ddim yn gymwys o gwbl.

Sylwch nad yw lle sicr yn yr ysgol ar gyfer Derbyniadau yn golygu'r awtomatig y bydd cludiant am ddim i'r ysgol yn cael ei ddarparu. Os ydych yn penderfynu rhoi eich plentyn mewn Ysgol Uwchradd, lle nad honno yw'r ysgol uwchradd addas agosaf at eich cyfeiriad cartref - yr rhiant fydd yn gyfrifol am drefnu'r cludiant a'r costau, gan mai dewis y rhiant fydd hyn. Yr unig eithriad rhannol i'r rheol hon yw ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, lle Ysgol Morgan Llwyd yw'r Ysgol Uwchradd addas agosaf neu yn debyg i hynny Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph's yw'r Ysgol Uwchradd addas agosaf ar sail Ffydd – fodd bynnag, yn y ddau achos bydd cludiant am ddim i'r ysgol ond ar gael unwaith yn rhagor i ddisgyblion sy'n byw dros 3 milltir o'r ysgol benodol.

Os nad ydych chi'n siŵr pa un yw'r Ysgol Uwchradd addas agosaf i'ch cyfeiriad cartref, anfonwch e-bost at school.transport@wrexham.gov.uk gan gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r disgybl ar gyfer yr wybodaeth hon cyn gwneud cais am le mewn ysgol uwchradd.

Ysgol Gynradd

Mae'r meini prawf uchod yn berthnasol i gludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oedran Ysgol Gynradd a'r amod yw bod eich cyfeiriad cartref dros 2 filltir o'r Ysgol Gynradd addas agosaf. Mae'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg neu Ffydd hefyd yr un fath ond unwaith eto gyda'r amod fod disgybl sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol benodol.

Sylwch mai dim ond plant oedran derbyn a hŷn syn gallu derbyn cludiant am ddim i'r ysgol ac nad yw Cyngor Wrecsam yn darparu unrhyw gludiant i ddisgyblion Ôl-16 i 6ed Dosbarth ysgol neu sefydliadau addysg bellach fel Coleg Cambria. Dylai Rhieni / Disgyblion gysylltu â'r sefydliad dan sylw i gael rhagor o wybodaeth.